



YSGOL GYMRAEG YSTALYFERA-BRO DUR
Cynllun Gwariant GDD 2021-22



Datganiad Grant Datblygu Disgyblion Ysgol Gymraeg Ystalyfera – Bro Dur

Mae Grant Datblygu Disgyblion i ysgolion â disgyblion sy'n dod o deuluoedd incwm isel ac sydd ar hyn o bryd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim (e-FSM) a disgyblion sydd wedi derbyn gofal yn barhaus am fwy na chwe mis (LAC).

Disgwylir i ysgolion ddefnyddio'r cyllid hwn i'r eithaf i gyflwyno strategaethau cynaliadwy fydd yn arwain yn gyflym at newidiadau i ddysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim neu sy'n LAC.

Fel ysgol rydym wedi cytuno ar y tri cham a ganlyn:

1. adnabod grŵp targed o ddisgyblion, eu nodweddion a'u hanghenion
2. cynllunio ymyraethau sy'n gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau
3. monitro a gwerthuso effaith adnoddau

Yn 2021-22 rhoddwyd i Ysgol Gymraeg Ystalyfera – Bro Dur ddyraniad Grant Datblygu Disgyblion o **£188,600**

Yn yr ysgol mae gennym gynllun cynhwysfawr, sydd wedi'i gytuno a'i fonitro gan Awdurdod Lleol Sir Castell Nedd Port Talbot i hyrwyddo cynnydd a chael gwared ar rwystrau i ddysgu i fyfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer y cyllid hwn.

Rydym wedi defnyddio'r cyllid sydd ar gael i wneud y canlynol:

- Apwyntio Cynorthwy-ydd Llythrennedd a Rhifedd i gyd-lynu, creu ac arwain rhaglenni a gweithgareddau ar gyfer grwpiau targed gan gynnwys disgyblion PYDd/LAC.
- Hyfforddi cynorthwy-wyr arbenigol i greu proffil o bob plentyn ym mhob CA er mwyn creu cynlluniau gweithredu pendant.
- Rhyddhau Arweinwyr Blwyddyn i gynllunio a monitro rhaglen fentora ddwys gydag ymyrraethau penodol i ddisgyblion PYDd (presenol a blaenorol) i godi safonau ym mhob cyfnod.



- Ariannu 0.6 'Swyddog Cynhwysiant' YGY/BD er mwyn darparu adnodd gynhwysiant lwyddiannus er mwyn sicrhau dilyniant mewn addysg i rai o'n disgyblion mwyaf bregys.
- Ariannu Anogwr Dysgu (0.4) i ddarparu cefnogaeth 1:1 a grwpiau bach.
- Dynodi dosbarth dysgu ychwanegol craidd yn Blwyddyn 11 safle Ystalyfera a Bro Dur er mwyn sicrhau dosbarthiadau llai eu maint. Mae'r dosbarthiadau yn cynnwys nifer o ddisgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni yn sgil tlodi ac amddifadedd a disgwyliwn felly iddynt gyrraedd eu potensial.
- Dynodi dosbarth dysgu ychwanegol ym mlwyddyn 9 Bro Dur er mwyn sicrhau dosbarthiadau llai eu maint. Mae'r dosbarth yn cynnwys nifer o ddisgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni yn sgil tlodi ac amddifadedd a disgwyliwn felly iddynt gyrraedd eu potensial.
- Darparu llwybrau cwricwlwm addas gyda dyraniad amser / adnoddau yn cyfateb i anghenion disgyblion unigol.
- Gwella presenoldeb a phrydlondeb y grŵp targed drwy ddefnyddio cyfweiliadau, monitro a chefnogaeth wedi dargedu gan fentoriaid personol, swyddogion cynhwysiant a swyddog lles yr ysgol.
- Gwrthbwysu cost ymweliadau addysgol a gwrthbwysu costau preswyl disgyblion PYDd a'r rhai mewn cartrefi difreintiedig.

Cytunwyd gan y Corff Llywodraethol (Pwyllgor Cyllid a Phwyllgor Lles)
Tachwedd 9fed 2021

Cytunwyd:

Laurel Davies

Pennaeth

Alun Llewellyn

Cadeirydd



Mae ein cynllun manwl sy'n cynnwys manylion mewn perthynas â sut rydym yn gwario'r grant ar gael isod:

Grant Datblygu Disgyblion

Ysgol Gymraeg Ystalyfera – Bro Dur

2021-22

Rhif	Nôd / Targed	Camau Gweithredu	Disgrifiad y gwariant	Cost	Meini Prawf Llwyddiant
1.	Codi safonau CA4 i ddisgyblion PYDd	<p>Creu dosbarth ychwanegol (Bl.11) yn y pynciau craidd yn YGYBD (Cymraeg, Saesneg, Mathemateg)</p> <p>Darparu llwybrau cwricwlwm/rhaglenni cyfoethogi addas / hyblyg ar gyfer disgyblion targed (Bro Dur)</p> <p>Ymyrraeth a chymorth i ddisgyblion (Bl.11) i sicrhau eu bod yn cyflawni graddau targed.</p> <p>Darparu cymorth ac ymyrraeth i ddarpar ddysgwyr NEET a dysgwyr sy'n agored i niwed (Swyddog Cynhwysiant ac Anogwr Dysgu)</p> <p>Sesiynau mentora gyda CCD's Cau'r Bwlch.</p> <p>Darpariaeth amser Anogwr Dysgu.</p>	<p>Costau staffio.</p> <p>Hyfforddiant staff ar gyfer cyrsiau.</p> <p>Costau cyrsiau.</p>	<p>6 athro x 5 awr y bythefnos = £33,411</p> <p>Llwyddo YGY: £40 y disgybl x 21 = £840</p> <p>BD: £40 y disgybl x 8 = £320</p> <p>0.6 Swyddog Cynhwysiant = £13,466</p> <p>0.4 Annogwr Dysgu = £9,560.80</p>	<p>Disgyblion targed yn cyrraedd eu gradd darged (Tracio a monitro)</p> <p>Cymwysterau addas ar gyfer llwybr dysgu.</p> <p>Cymhwyster Llwyddo.</p> <p>Cymwysterau Agored Cymru</p>

2.	Codi safonau CA3 i ddisgyblion PYDd	<p>Creu dosbarth ychwanegol y mlwyddyn 9 (BD).</p> <p>Rhaglenni ymyrraeth Llythrennedd i ddisgyblion targed. CA3(grwpiau targed yn dilyn profion AWRT / CATs / Lucid) Rhaglenni ymyrraeth Rhifedd i ddisgyblion targed CA3(grwpiau targed yn dilyn profion Rhif gweithdrefnol / CATs a LUCID). Cefnogaeth ieithyddol trwy rhaglenni ymyrraeth 'Swyddog iaith' (YGY).</p> <p>Hyfforddiant i staff ar godi safonau Llythrennedd a Rhifedd.</p> <p>Creu, Tracio a Monitro grwpiau targed gan CCD.</p>	<p>Costau staffio.</p> <p>Hyfforddiant staff ar gyfer cyrsiau.</p> <p>Costau cyrsiau</p>	<p>Athro llawn amser £38,025</p> <p>0.5 Swyddog iaith = £12,189</p> <p>Hyfforddiant Impact Wales = £1,400 Cefnogaeth CCD=£23,903</p>	<p>Cynnydd mewn safonau Sillafu, Atalnodi a Gramadeg disgyblion grwpiau targed. Cynnydd mewn sgiliau a hyder disgyblion targed wrth ymdrin â rhif.</p> <p>Cynnydd mewn sgiliau a gallu wrth ysgrifennu'n estynedig yn y grwpiau targed.</p> <p>Model Cwricwlaidd addas i bwrpas.</p>
3.	Codi safonau CA2 i ddisgyblion PYDd	<p>Rhyddhau Arweinydd CA2 i adnabod proffil disgyblion a chreu grwpiau targed ar sail data asesiadau athro / AWRT / Rhif.</p> <p>Rhaglenni ymyrraeth Llythrennedd a Rhifedd ar gyfer disgyblion targed.</p> <p>Adnoddau er mwyn codi safonau darllen – darparu llyfrau i fynd adref.</p>	<p>Costau staffio.</p> <p>Costau staffio.</p> <p>Adnoddau</p>	<p>Athro Medi – Rhagfyr 6 x awr yr wythnos = £4,212</p> <p>Costau 0.5 CCD = £11,394</p>	<p>Cynnydd mewn safonau Sillafu, Atalnodi a Gramadeg disgyblion grwpiau targed.</p> <p>Cynnydd mewn sgiliau a hyder disgyblion targed wrth ddarllen.</p>

				Oxford Reading Tree £1,500 er mwyn gallu darparu adnoddau i deuluoedd PYDd	
4.	Lles	<p>Rhaglenni Anogaeth (Nurture) a chefnogaeth lles emosiynol yn ystod sesiynau bugeiliol gan CCD's.</p> <p>Hyfforddiant lles emosiynol i staff yn dilyn COVID 19 (staff Stwnsh YGY/BD)</p> <p>Darparu adnoddau gweinyddol a chyfarpar angenrheidiol i ddisgyblion PYDd i fynedu'r cwricwlwm</p> <p>Cefnogaeth i sicrhau presenoldeb disgyblion PYDdd ar raglenni a gweithgareddau cyfoethogi allgyrsiol.</p>	<p>Costau staffio.</p> <p>Costau Hyfforddiant</p> <p>Costau adnoddau</p> <p>Gweithgareddau cyfoethogi.</p>	<p>CCD – 12 x awr y wythnos =£9,052 (3 safle)</p> <p>Costau uchod.</p> <p>Swyddog cynnydd (50% cost swydd)= £9,632</p>	<p>Gwelliant mewn agwedd ac ymglymiad at ddysgu.</p> <p>Holiaduron disgyblion yn dangos agwedd bositif a lles meddwl iach.</p> <p>Disgyblion PYDd yn chwarae rhan lawn yng nghwricwlwm / calendr cyfoethogi yr ysgol.</p>
		Rhyddhau Arweinwyr Blwyddyn i adnabod proffil disgyblion, creu grwpiau targed ar sail presenoldeb ac yn tracio a monitro trwy'r flwyddyn.	Rhyddhau staff ar gyfer tracio a monitro	6h/week UPS3 2a £16,565	Cynnydd presenoldeb a gwelliant prydlondeb.



5.	Presenoldeb	Mentora disgyblion gan staff cefnogol (Ar Bl / Swyddog Lles) Cyswllt cartref a monitro targedau presenoldeb. App School Comms - ymateb diwrnod cyntaf i sicrhau bod disgyblion yn brydlon.	Cost App School Comms	Ar Bl = 14 x 1 awr y bythefnos CA2-CA5 (2 safle) School Comms + Negesuon testun 2021- 22= £4,357	
6.	Trosglwyddo	Rhaglenni cefnogi / cyfoethogi i ddisgyblion PYDd a bregys wrth drosglwyddo.	Cyfleoedd ychwanegol i ddisgyblion. Costau staffio.	1 athro x 1 awr y bythefnos = £836	Darpariaeth addas i ddisgyblion PYDd, bregus a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol i'w cefnogi yn ystod y cyfnod pontio fel eu bod yn ymgartrefu ac yn barod i ddysgu.
Cyfanswm GDD YGY-BD: Cyfanswm gwariant cynlluniau unigol				£190,689.80	Cyfraniad o £2089.80 o gyllid yr ysgol